Siarter Pobol cyn Elw

Gyda phob diwrnod sy'n mynd heibio mae chwyddiant a dirwasgiad yn dal eu gafael yn dynach a thynach ar yr economi. Mae pobol sy'n gweithio yn wynebu prisiau sy'n codi'n gyflym yn enwedig bwyd a thanwydd; cyfyngiadau cyflog y llywodraeth, cynnydd mewn diweithdra a chreisis cartrefu difrifol.

Ar yr un pryd mae'r gor-gyfoethog yn parhau i fwynhau cyflog, bonws ac elw anferthol er yn talu llai o dreth nag o dan y Torïaid.

Mae'r ansicrwydd a deimlir gan laweroedd yn cael effaith gwleidyddol difrifol hefyd; adfywiad y Torïaid a chynnydd mewn dadleuon gwrth mewnfudiad a ffasgiaeth.



Rhaid wrth ymateb cydlynol i'r bygythiadau hyn. Fel rhan o'ch ymateb ychwanegwch eich enw i'r Siarter hon ac yna mynnwch gefnogaeth i'r Siarter oddi wrth eich Undeb, plaid neu ymgyrch.

1. Codi cyfolg dim llai na lefel chwyddiant a amlinellir gan y Mynegai Pris Adwerth. Na i gyfyngiad cyflog dau y cant y llywodraeth.
2. Codi treth ar gwmniau mawr. Cyhoeddi treth ffawd-elw ar or-daladiadau ac elwau corfforaethau, yn enwedig ar elwau y cwmniau olew.
3. Diddymu deddfau gwrth undeb y Torïaid. Cefnogi Mesur Rhyddid Undebau Llafur.
4. Dylai cynghorau lleol feddiannu tai a fflatiau heb eu gwerthu i leddfu'r creisis cartrefu. Na i ad-feddiant cartrefi gan gwmniau morgais.
5. Stop i'r preifateiddio o'n gwasanaethau cyhoeddus. Iechyd ac addysg cyfartal, rhad ac am ddim i bawb.
6. Diwedd i'r gorthrwm yn Irac ac Affganistan a defnyddio'r arian i ehangu gwasanaethau cyhoeddus. Diwedd i'r erydiad o'n hawliau sifil.
7. Diddymu treth ar danwydd ac ynni ar gyfer yr henoed a'r tlawd. Ail-sefydlu'r berthynas rhwng cyflog a phensiwn.
8. Na i hiliaeth. Na i Blaid Cenedlaethol Prydain (BNP). Na i roi bai ar gam ar fewnfudwyr.
9. Ail-sefydlu grantiau a diddymu ffioedd myfyrwyr.
10. Codi isafswm cyflog i £8.00 yr awr.

Mae nifer o weithwyr ac undebwyr llafur nawr yn brwydro i amddiffyn eu tal, swyddi a gwasanaethau.

Ardystiwn ein hunain i gefnogi eu gweithrediadau a chefnogi'r ymgyrchoedd hynny sy'n ymroddedig i amddiffyn pobol sy'n gweithio, gan gynwys:

Uno Yn Erbyn Ffasgiaeth ● Gwasanaethau Cyhoeddus Nid Elw Preifat ● Amddiffyn Tai Cyngor ● Clymblaid Yn Erbyn y Rhyfel ● Cadw Ein GIC yn Gyhoeddus

Enw	Cyfeiriad/Ebost/Ffôn	Undeb/Mudiad	Swyddogaeth, os yw'n briodol

Mae llofnodwyr (mewn swyddogaeth personol) y Siarter yn cynwys Tony Benn, Jeremy Dear ysgrifennydd cyffredinol Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr/NUJ, **George Monbiot, John McDonnell AS, Lindsey German** trefnwraig Clymblaid Yn Erbyn y Rhyfel, **Jeremy Corbyn AS, Alice Mahon, Joe Marino** ysgrifennydd cyffredinol BFAWU, **Brian Caton** ysgrifennydd cyffredinol POA, **John Pilger, Dave Ward** Is-ysgrifennydd cyffredinol CWU (P)

Anfonnwch i: Siarter Pobol Cyn Elw, BM 6035, Llundain WC1N 3XX ● Ebost peoplebeforeprofitcharter@googlemail.com ● Y we http://peoplebeforeprofit@wordpress.com (ar gael yn saesneg yn unig)